



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

AROLWG HYDREDOL

O ARDALOEDD MENTER YNG NGHYMRU

CAM 1 - Y PRIF BWYNTIAU



MAWRTH 2014

Y Cefndir

Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cadarnhau bod saith ardal yng Nghymru wedi'u dynodi'n Ardaloedd Menter. Mae pob un o'r Ardaloedd Menter hynny'n canolbwyntio ar sector cyflogaeth neu ar sector diwydiannol allweddol.

Dyma ll mae'r Ardaloedd Menter hynny:

- Ynys Môn
- Canol Caerdydd
- Glannau Dyfrdwy
- Glyn Ebwy
- Dyfrffordd y Ddau Gleddau
- Eryri
- Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd

Nod cyffredinol sefydlu Ardaloedd Menter yw dod â manteision i'r ardaloedd hynny drwy sicrhau twf economaidd a chreu swyddi, gan hyrwyddo gweithgarwch mewn ardaloedd daearyddol penodol.

Dyma'r amcanion:

- Hybu twf yn yr economi leol a chreu swyddi newydd
- Bod yn gyfrwng i sbarduno twf mewn rhannau eraill o Gymru
- Gwneud yr Ardal Fenter yn fwy deniadol i fuddsoddwyr
- Gwneud economi Cymru yn fwy cystadleuol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol er mwyn inni fedru mesur llwyddiant yr Ardaloedd Menter o ran i ba raddau y maent yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir, megis twf a swyddi. Mae'r Dangosyddion Perfformiad hynny i'w gweld ar: <http://wales.gov.uk/topics/businessandconomy/publications/welsh-gov-ezw-key-performance-indicators/?lang=cy>

Law yn llaw â'r dangosyddion hyn, rydym yn awyddus hefyd i glywed yr hyn sydd gan fusnesau yn yr Ardaloedd hyn i'w ddweud am yr effaith y mae bod mewn Ardal o'r fath yn ei chael arnynt – o ran y gwerth y mae'n ei ychwanegu, ac o ran effeithiolrwydd. Rydym am gael gwybod mwy am eu hagweddau a'u canfyddiadau. Felly, ym mis Hydref 2013, aethom ati i gomisiynu arolwg hydredol o fusnesau yn Ardaloedd Menter Cymru. Roedd yr arolwg meintiol hwnnw, a gynhaliwyd dros y ffôn, yn un cwbl annibynnol. Mae sefydlu Ardaloedd Menter yn ffordd hirdymor o ddatblygu'r economi, felly bydd angen mesur eu perfformiad yn y tymor hwy. O'r herwydd, rydym wedi comisiynu arolwg cychwynnol a fydd yn cael ei ddilyn wedyn gan arolygon pellach, a fydd yn ddefnyddio sampl llai o faint ac yn cael eu cynnal dros gyfnod o ddwy flynedd.

Eir ati yn y ddogfen hon i grynhoi canfyddiadau'r arolwg cychwynnol, sef 'cam cyntaf' yr arolwg hydredol o Ardaloedd Menter. Yn ystod y cam hwnnw, cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn â 247 o fusnesau (o blith cyfanswm o 522 o gwmnïau a nodwyd) ar draws y saith Ardal Fenter yng Nghymru.

Prif Bwyntiau Cam Cyntaf yr Arolwg

1. Ymwybyddiaeth bod y busnes mewn Ardal Fenter a'r manteision sy'n gysylltiedig â hynny

- Roedd 7 o bob 10 busnes yn gwybod eu bod mewn Ardal Fenter. *(Sylwer: 32% o'r busnesau yn Ardal Fenter Canol Caerdydd oedd yn gwybod hynny; mae'n debyg bod modd priodoli hynny i'r ffaith mai bod yng Nghaerdydd, yn hytrach nag yn yr Ardal Fenter, sy'n ddeniadol. Fodd bynnag, bwriedir mynd i'r afael â hynny yn y dyfodol drwy gynnal ymgyrch farchnata a fydd yn cael ei thargedu at Gaerdydd).*
- Roedd dros hanner (53%) y busnesau o'r farn bod eu lleoliad mewn Ardal Fenter yn ychwanegu gwerth at eu busnesau neu'n esgor ar fanteision.
- Roedd bron hanner y busnesau a holwyd yn gwybod am y cynllun cymorth ardrethi busnes.
- Roedd dros 40% o'r busnesau a holwyd yn gwybod am y cymorth sydd ar gael ar gyfer hyfforddi a datblygu.
- Roedd un o blith pob pump o fusnesau a holwyd yn gwybod am y cyfraddau benthyca ffafriol a gynigir gan Gyllid Cymru.
- Roedd un o blith pob pump o fusnesau a holwyd yn gwybodam y cymorth ar gyfer Cyflymu Cymru.

2. Proffil y busnesau yn yr Ardaloedd Menter

- Roedd dros dwy ran o dair o'r busnesau yn yr Ardaloedd Menter wedi'u sefydlu ers tro (dros 10 mlynedd) ac roedd bron hanner ohonynt mewn buses ers dros 20 mlynedd.
- Roedd ychydig dros hanner y busnesau a holwyd yn cyflogi 10 neu lai o weithwyr; roedd traean yn cyflogi rhwng 11 a 49; a'r gweddill yn cyflogi 50 neu fwy. *Sylwer, mae hyn yn dangos bod cyfran uchel o'r busnesau yn y categori 11-49 o weithwyr, o'u cymharu â gweddill Cymru.*
- Mae'r arolwg yn awgrymu bod busnesau sydd yn yr Ardaloedd hyn yn cael effaith ac yn cyrraedd marchnadoedd ymhell y tu hwnt i ffiniau'r Ardaloedd Menter eu hunain. Roedd 7 o bob 10 busnes a holwyd yn cyflenwi marchnadoedd eraill yn y DU, a 4 o bob 10 yn masnachu'n rhynglwadol.

3. Defnyddio'r manteision sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Menter

- Roedd ychydig yn llai na hanner y busnesau a holwyd wedi defnyddio un neu fwy o'r manteision a oedd ar gael iddynt oherwydd eu bod mewn Ardal Fenter.
- Roedd un o bob pump o'r busnesau a holwyd wedi elwa ar gymorth hyfforddi a datblygu.

4. Effaith y manteision sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Menter

- Dywedodd bron tri chwarter (72%) yr ymatebwyr fod y manteision sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Menter wedi cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar eu busnes (lle nodwyd hynny).
- Roedd traean o'r busnesau a holwyd wedi creu swyddi newydd yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Roedd traean o'r busnesau a holwyd wedi diogelu swyddi yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Roedd bron hanner y busnesau a holwyd yn ffyddiog y byddai eu cwmni yn tyfu yn y dyfodol.
- Roedd tua hanner y rheini a holwyd o'r farn y byddai eu lleoliad mewn Ardal Fenter yn eu helpu i ddiogelu swyddi (53%) neu i greu swyddi newydd (48%) yn ystod y 12 mis nesaf.

5. Y rhwystrau sy'n llesteirio busnesau, a chymorth gan Lywodraeth Cymru

- Y ddau rwystr mwyaf cyffredin a oedd yn atal busnesau rhag cyflawni eu hamcanion oedd diffyg gwasanaethau band eang (neu arafwch y gwasanethau band eang), ac ardrethi busnes. Mae'r meysydd hyn yn rhai y mae gan Lywodraeth Cymru fentrau penodol ar eu cyfer yn yr Ardaloedd Menter. Bydd y mentrau hynny'n dod â budd uniongyrchol i fusnesau.
- Mae Ardaloedd Menter yn cael blaenoriaeth o dan raglen Cyflymu Cymru. Os nad yw'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen honno eisoes ar droed yn yr Ardaloedd Menter, bydd yn dechrau yn ystod y gwanwyn.
- Mae cyfanswm o £4.5 miliwn wedi'i ymrwymo i geisiadau a gymeradwywyd o dan ddau gylch cyntaf y Cynllun Ardrethi Busnes ar gyfer Ardaloedd Menter, a bydd hyd yn oed mwy o gymorth yn cael ei gynnig yn hyn o beth yn ystod y trydydd cylch cyllid, pan fydd swm o hyd at £4 miliwn ar gael.
- Yn ôl busnesau mwy yn benodol, y rhwystrau nesaf o ran eu pwysigrwydd oedd rhai yn ymwneud â'r farchnad lafur yn lleol, o ran recriwtio a sgiliau. Mae hwn eto yn faes lle mae cymorth penodol ar gael eisoes. Mae'r cymorth hwnnw'n cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod 2014/15, er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn yn yr ardaloedd menter.
- Mae'r arolwg yn awgrymu bod y cymhellion sydd ar gael eisoes yn yr Ardaloedd Menter o ran ardrethi busnes, band eang, a hyfforddiant a sgiliau, yn cyd-fynd â'r ffactorau y mae'r busnesau eu hunain wedi nodi sy'n eu hatal rhag tyfu.